Cofnodion

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Hydref 2021

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr C Ferris (Cadeirydd), P Hourahine, J Clarke, T Watkins, K Thomas and G Giles

1 **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd C. Evans, y Cynghorydd C. Townsend a'r Cynghorydd Whitcutt.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim i'w ddatgan.

3 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2021**

Cyfeiriodd y Cynghorydd K Thomas at y cwestiwn ar dudalen 9 a gofynnodd am ddiwygio'r geiriad gan fod croeso i aelodau o'r cyhoedd yn y ganolfan ddinesig. Nododd y Pwyllgor fod y sylw'n ymwneud ag eitem arall yn ymwneud â sesiynau galw heibio i ddarpar ymgeiswyr i fod yn gynghorwyr.

Yn amodol ar yr ychwanegiad hwn, cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 22 Gorffennaf 2021 a'u **derbyn** yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Adroddiad Blynyddol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**

Rhoddodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio drosolwg byr o adroddiad blynyddol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Esboniwyd i'r pwyllgor fod Pennaeth y Gwasanaeth a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi gweithio ar yr adroddiad.

Pwyntiau allweddol:

Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Hydref 2021, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ble mae'r Cyngor gyda threfniadau staffio'r Gwasanaethau Democrataidd o ran cefnogi cynghorwyr i gyflawni eu rolau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y tîm Gwasanaethau Democrataidd yn llawn, gyda Leanne Rowlands yn swydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ac fel Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd. Roedd dau gynghorydd craffu mewn swydd ar ôl oedi hir yn ystod y cyfnod clo.

Y farn yw bod ganddynt ddigon o gefnogaeth yn y tîm i gefnogi'r pwyllgor ond mae hynny'n destun adolygiad o ran polisi'r Cyngor neu a fydd mentrau newydd i'w hystyried. Byddent yn adolygu'r strwythur a'r capasiti yn gyson.

Dros y deuddeg mis nesaf, prif flaenoriaeth y tîm Gwasanaethau Democrataidd yw datblygu'r dechnoleg ar gyfer cyfarfodydd hybrid a darparu hyfforddiant i aelodau i'w galluogi i ddefnyddio'r system yn effeithiol.

Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad ar yr agenda o ran cyfarfodydd hybrid, o fewn 6-8 mis fydd y flaenoriaeth, mewn pryd ar gyfer etholiadau mis Mai yn 2022 i gwrdd â'r newid hwnnw o gyfarfodydd o bell i gyfarfodydd hybrid gyda'r gefnogaeth ddigonol.

Pan fydd y ganolfan ddinesig yn cael ei defnyddio eto gyda phobl yn cwrdd mewn ystafelloedd cyfarfod; gall mynychwyr ddeialu o bell gan fod y statud yn gofyn am hyn. Diben hyn yw cefnogi'r cynghorwyr i gyflwyno eu rhaglen waith am y deuddeg mis nesaf.

Croesawodd y Swyddog Arweiniol gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor.

<u>Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:</u>

- Holodd Cadeirydd y Pwyllgor a fyddai person, wrth fynychu cyfarfod wyneb yn wyneb, yn cael mwy o ddylanwad o fod yn y cyfarfod wyneb yn wyneb.

  Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod yn rhaid iddynt sicrhau bod gan y rhai sy'n ymuno o bell yr un hawliau a gallu i gymryd rhan mewn trafodaeth ag eraill ac nad ydynt o dan anfantais mewn unrhyw ffordd. Bydd cadeirio'r cyfarfod hefyd yn gofyn am sgiliau gwahanol, mae'r swyddog yn ymwybodol o'r angen hyfforddi hwnnw.
  Ailadroddwyd wrth y Pwyllgor y bydd deialu i mewn yn ddewis personol i'r Aelodau ac nid yn rhywbeth sydd ei angen am resymau iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, bydd yn fater o ddewis personol; felly, os na all rhywun gyrraedd siambrau'r Cyngor am unrhyw reswm, gallant ddeialu o bell. Ar gyfer cyfarfodydd o'r fath ni all aelodau fod o dan anfantais o ran eu pleidleisio a'u rôl o fewn y pwyllgorau.

- Holodd y Cynghorydd Hourahine a ddylid rhoi rheswm dros weithio o bell, er enghraifft, a fyddai dewis personol yn rheswm dros hynny.
  Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol fod dewis personol yn rheswm; diben cyfarfodydd hybrid yw bod yn rhan o agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth Llywodraeth Cymru. Gan na all rhai Cynghorwyr sydd ag ymrwymiadau eraill fel gwaith deithio i'r ganolfan ddinesig, byddant yn gallu deialu o bell. Ni fydd angen ymddiheuro am absenoldeb ac am beidio â bod yn eistedd yn gorfforol yn y cyfarfod gan fod presenoldeb o bell yn cyfrif oherwydd bydd yr Aelod yn cymryd rhan yn y cyfarfod.

- Nododd y Cynghorydd Giles ei bod yn dda clywed am lwyddiant yr ad-drefnu, bod gan y tîm yr holl staff sydd eu hangen arnynt a llongyfarchodd bawb ar eu swyddi.

  O ran presenoldeb rhithwir; Dywedodd y Cynghorydd Giles y gallai hyn, gobeithio, gynyddu presenoldeb gan nad yw pawb yn gallu dod i mewn felly mae'n rhoi mwy o gyfle i bobl fynychu cyfarfodydd yn y modd hwnnw. Gallant weld llawer o waith meddwl wedi'i wneud i sicrhau mynediad cyfartal. Os yw'n gweithio'n dda, bydd yn beth da.

- Llongyfarchodd y Cynghorydd Clarke y tîm ar gael lefelau staff llawn ar ôl bod drwy Covid. Yn y flwyddyn rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Tachwedd 2021, maent yn edrych ar gyfarfodydd hybrid ar gyfer y dyfodol ond nododd ei bod yn bwysig adfyfyrio ar sut y cynhaliwyd pethau a soniodd am yr hyn y bydd yn rhaid i gadeiryddion pwyllgorau ei wneud i fynd i lywio cyfarfodydd rhithwir. Wrth adfyfyrio, bu gwaith da gan bawb a diolchodd i'r tîm.

- Ategodd y Cynghorydd Watkins y pwynt blaenorol, cyn belled â bod y system gyfarfod yn gweithio'n dda, bydd yn cael effaith gadarnhaol.

Mae'n rhoi cyfle i'r rhai nad ydynt yn gallu dod i'r ganolfan ddinesig am unrhyw reswm, fynychu'r cyfarfod.

- Soniodd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos bod y system gyfarfod yn gwella ac yn fwy ymarferol.

5 **Adroddiad Blynyddol gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio wrth y Pwyllgor mai dyma'r adroddiad drafft ar gyfer y Pwyllgor, y maent yn ei gyflwyno i'r Cyngor, ar waith y pwyllgor dros y 12 mis diwethaf a'r rhaglen waith hyd at fis Mai nesaf 2022. Mae'r adroddiad blynyddol drafft yn cynnwys gwybodaeth am aelodaeth, gweithgareddau a'r rhaglen waith ar gyfer y misoedd nesaf ac yn crybwyll llawer o'r gwaith y bydd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn ei drafod yn eitemau diweddarach yr agenda.

<u>Gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:</u>

Nododd y Cadeirydd ei fod yn arfarniad teg a gofynnodd i'r Pwyllgor a oedd yn fodlon ei dderbyn.

- Nododd y Cynghorydd Hourahine bod tudalen 32, yr ail baragraff, yn dweud bod y Pwyllgor yn teimlo bod y cyfnod sefydlu yn gynhwysfawr ond bod pryder wedi'i godi ynghylch dwyster yr hyfforddiant gyda 37 o fodiwlau'n cael eu datblygu. Gofynnodd yr Aelod a yw'r Pwyllgor yn pryderu am yr hyfforddiant gan na allai gofio cael y drafodaeth honno.

  Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol ei fod wedi'i gofnodi fel y cyfryw yn y cofnodion. Y farn gyffredinol oedd ei fod i'w groesawu, roedd y Cynghorydd Matthew Evans yn pryderu am nifer y modiwlau felly mai'r peth pwysicaf oedd nodi pa rai oedd yn orfodol ac yn benodol i rolau unigol er mwyn iddyn allu ymgymryd â rolau penodol. Er bod pryder cychwynnol – eglurodd y tîm i'r Pwyllgor nad oedd yn rhaid i Aelodau fynychu'r holl fodiwlau; dyna pam yr oeddent am egluro pa rai fyddai'n orfodol neu'n benodol i'w rôl pwyllgor.

- Soniodd Cadeirydd y Pwyllgor y dylid cynnwys datganiad nad yw pob modiwl yn orfodol efallai.

  Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth bod y pwynt hwnnw'n cael ei gadarnhau ar ddiwedd yr adroddiad.

- Nododd y Cynghorydd Thomas y bydd Cynghorwyr newydd sy'n ymuno yn mynd i'r swydd heb lawer o fewnwelediad.
  Felly, mae angen egluro cymhlethdod y rôl yn glir, gyda chymorth llawn yn cael ei roi iddynt i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi sy'n briodol i'w rolau.

- Cafwyd trafodaeth ac awgrymodd y Cadeirydd y gellid sôn yn yr adroddiad drafft fod yr hyfforddiant yn ddewisol i'r Aelodau profiadol, gan na fyddai angen iddynt ei wneud.

- Nododd y Cynghorydd Thomas fod yn rhaid rhoi pob cam posibl ar waith i sicrhau y bydd yn fap llwybr symlach ar gyfer sut mae'r Aelodau'n ymgysylltu â'r hyfforddiant.

  Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth ei bod yn hapus i ystyried sylwadau'r Pwyllgor.

Bydd rhan o'r rhaglen waith i'w chyflawni ymhen 6-8 mis gyda'r rhaglen sefydlu, mae negeseuon y gallai'r tîm eu bwydo'n ôl i Ddarpar Aelodau etholedig. Nodwyd bod hyn yn adlewyrchiad mwy adfyfyriol o'r hyn a drafododd y Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw.

- Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r swyddogion, gyda'r adroddiad drafft, gadw sylwadau'r Pwyllgor mewn cof a gallai'r Swyddog Monitro ysgrifennu geiriad i'w gyflwyno i'r cyngor, a allai fod yn rhywbeth y gallant ei atgyfnerthu mewn sylwadau rhagarweiniol.

- Dywedodd y Cynghorydd Thomas hefyd fod hyfforddiant yr Aelodau bron i ddegawd yn ôl yn brin iawn, a sylwodd fod llawer iawn o hyfforddiant wedi'i gyflwyno gan y ddwy weinyddiaeth ddiwethaf. Mae cyflwyno rhywbeth cydlynol i uwchsgilio'r Cynghorwyr yn dda ac yn dangos bod newid diwylliant wedi bod.

- Dywedodd y Cynghorydd Clarke hefyd sut mae'r dechnoleg newydd yn hwyluso lefel ehangach o hyfforddiant ac argaeledd ar gyfer hynny.
  Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaeth fod datblygiad hyfforddiant yr Aelodau yn ei ddyddiau cynnar flynyddoedd lawer yn ôl, ond ei fod wedi datblygu'n sylweddol y ddau dro diwethaf. Bydd yr un nesaf yn fwy dwys eto. Y rheswm am hyn yw eu bod bellach yn gallu nodi pa setiau penodol o sgiliau sydd eu hangen ar Gynghorwyr, o ran yr hyn sydd ei angen ar Gynghorwyr ar gyfer eu rolau penodol a nodi sut i ddatblygu sgiliau'r Aelodau.

  Mae cyflwyno e-ddysgu wedi helpu, felly nid oes rhaid i bobl ddod i mewn i'r ganolfan ddinesig bob tro y byddant yn gwneud cwrs.
  Bydd sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried ond o ran dysgu wyneb yn wyneb; mae'r tîm Gwasanaethau Democrataidd am gael y cydbwysedd cywir ar sut y maent yn darparu'r hyfforddiant a beth yw'r gofyniad am hynny.

- Dywedodd y Cynghorydd Giles, o ddechrau fel Cynghorydd tua 18 mlynedd yn ôl; nid oedd hyfforddiant ar gael. Ers hynny, bu gwelliant enfawr gyda charfanau newydd yn dod i mewn o wahanol gefndiroedd proffesiynol. Nododd y Cynghorydd Giles ei fod yn dda gweld yr hyfforddiant yn datblygu a byddai'n syniad da dewis a dethol ar gyfer anghenion penodol.
  Gallai'r Cynghorwyr hirsefydlog weld y dull 'dechrau o'r dechrau' yn llyffethair, felly byddai system fwy soffistigedig yn syniad da.

  Yna gofynnodd y Cynghorydd Giles a oes rhywbeth rhwng y modiwlau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Sesiynau lle gall pobl ddod i gyfarfod Pwyllgor ar gyfer hyfforddiant ond nad oes rhaid iddynt fod yn bresennol yn gorfforol. Byddai problemau gydag Aelodau sydd ag amgylchiadau gwahanol/salwch, felly gallai'r hyfforddiant cyfunol fod yn gysylltiedig â chydraddoldeb a phresenoldeb.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y gallent ddarparu hyfforddiant ar y sail honno ar ôl sefydlu Siambrau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Er enghraifft, gellid cynnal hyfforddiant gorfodol yn y Siambrau ar gyfer y rhai sy'n gallu dod i mewn. Gellid defnyddio'r cyfleuster hybrid ar gyfer yr Aelodau nad ydynt yn gallu dod i mewn. Mae'r swyddogaeth hybrid yn mynd â'r ddarpariaeth hyfforddi i lefel arall ac yn bendant yn osgoi problemau argaeledd.
  Soniwyd y gallai ychydig o sesiynau hyfforddi fod yn sesiynau hanner diwrnod – felly gallai presenoldeb cyfarfod hybrid fod yn fater o ddewis personol.

- Cytunodd y Cynghorydd Watkins fod y pwynt blaenorol yn syniad da a soniodd fod angen cyfnod parhaus o hyfforddiant dros gyfnod y Cyngor wrth i Bwyllgorau newid ar ôl cyfnod o amser.

  Gallai'r hyfforddiant parhaus hwn fod yn benodol i bwyllgor arall, er enghraifft, ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio; byddai'n rhaid i'r Aelodau fynd drwy hyfforddiant ar y system gynllunio eto. Os daw Aelod newydd dair blynedd i mewn i dymor newydd; byddai angen iddynt fynychu'r hyfforddiant. Soniodd yr Aelod fod hyn yn berthnasol i unrhyw bwyllgor y mae angen hyfforddiant pellach ar ei gyfer.
  Mewn ymateb, cytunodd y Pennaeth Gwasanaeth a chadarnhaodd y bydd ffocws ar hyfforddiant rhagarweiniol ym mis Mai 2022 er mwyn i Gynghorwyr dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd y mae'r broses o wneud penderfyniadau'n gweithio. Mae'r rolau ar gyfer gwahanol Bwyllgorau yn y dyfodol yn golygu y dylai anghenion hyfforddi unigol yr Aelodau fod yn gyson ac nid o fewn mis yn unig o ran sefydlu gan ei bod yn amlwg y gall rolau'r Aelodau newid. Er enghraifft, gellid dod yn Gadeirydd a byddai angen hyfforddiant arbenigol ar gyfer hynny, gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd hybrid.

  Ailadroddodd y Swyddog Arweiniol ddiben cynlluniau hyfforddi unigol ar gyfer Aelodau.

  Yn debyg i staff y Cyngor yn cael adolygiad perfformiad bob blwyddyn; lle maent yn dysgu pa feysydd i'w gwella a datblygu fel unigolyn. Gan gymhwyso'r pwynt ar gyfer Aelodau; gallai fod cynllun hyfforddi a datblygu dros y cyfnod pedair blynedd; nid yn syth ar ôl etholiad yn unig.

- Awgrymodd Cadeirydd y Pwyllgor y byddai angen awgrym o rôl mentora wrthi Bwyllgorau newid. O ran cynghorwyr newydd yn ymuno; holodd y Cadeirydd a allai addysg fod yn barhaus.

  Pwysleisiodd yr Aelod y byddai mentora yn hanfodol, yn enwedig i Gynghorwyr newydd. Yn enwedig gyda swyddi uwch; ni fyddai'n tanbrisio'r gwerth y mae Aelodau'n ei gael o ran y rôl gynrychioli. Er enghraifft, y Pwyllgor Trwyddedu, bod yn Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu gyda sgiliau holi. Daw mentora o ran yr arweinwyr cymunedol ac awgrymodd y gallai fod yn hanfodol gan na all swyddogion efelychu'r hyfforddiant, gan nad ydynt yn ymwneud â gwaith ward. Felly, gofynnodd yr Aelod a allai mentora gan uwch Aelodau fod yn hanfodol ar gyfer hyfforddiant.

  Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar dudalen 32 yr adroddiad, a gofynnodd a oedd unrhyw bwyntiau eraill yr oedd y Pwyllgor am eu codi.
  Cadarnhaodd y Pwyllgor eu bod yn hapus â'r adroddiad fel y mae.

6 **Strategaeth Cyfranogiad (Diweddariad Cyflwyniad)**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ac atgoffodd y Pwyllgor am y strategaeth gyfranogi sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ar gyfer Cymru gyfan.

<u>Pwyntiau allweddol:</u>

Mae hwn yn bolisi strategaeth sy'n annog pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau llywodraeth leol. Mae'r cyngor am ymgynghori a rhannu'r strategaeth erbyn mis Mai 2022.

Mae pum gofyniad yn y strategaeth gyfranogi, yr un y byddai'r Pwyllgor yn canolbwyntio arno yw sut i hyrwyddo dod yn Aelod o'r Cyngor neu'r Awdurdod cysylltiedig. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau sut y byddant yn ymgorffori'r adborth y Pwyllgor i'r swyddog. Darparodd y Swyddog amserlen gyffredinol, dywedodd fod y strategaeth yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a dylai fod dogfen waith ar gael yn barod ar gyfer mis Rhagfyr. Bryd hynny, bydd y ddogfen yn dychwelyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w hadolygu a derbyn sylwadau. Wedi hynny, bydd unrhyw welliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud ac yna bydd ymgynghoriad â'r cyhoedd ym mis Chwefror.

Mae'r grŵp yn ystyried strategaethau eraill ar ffyrdd diogel o estyn allan at drigolion eraill nad oes ganddynt lawer o bresenoldeb ar-lein. Hysbyswyd y Pwyllgor eu bod yn gweithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd yn y ddinas, ac nad oes ganddynt lawer o lais ar faterion o'r fath.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddant, o'r ymgynghoriad, yn casglu'r dystiolaeth a'r canlyniadau ac yn cyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2022; felly dylai fod yn barod mewn pryd i gyhoeddi'r strategaeth ym mis Mai. Bydd hyn wedyn yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu y mae'r Pwyllgor wedi'i drafod gyda'r Swyddogion yn y cyfarfod hwn.

Mae hyn yn bwysig er mwyn annog Aelodau a darpar Aelodau i gymryd rhan, i rannu'r wybodaeth hon â'r cyhoedd fel y bydd pawb yn ymwybodol o'r newidiadau a wnaed.

O ran gwybodaeth am sut i fod yn Aelod; mae newidiadau wedi'u gwneud i wefan y cyngor. Mae'n mynd ag ymwelwyr at ddolen ar wefan CLlLC gyda ffilm fer i'w gwylio. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod fideos o'r fath yn sôn am brofiadau gwahanol o fod yn Gynghorwyr yn cael eu rhannu â'r cyhoedd.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y grŵp swyddogion sy'n gweithio ar y strategaeth gyfranogi yn bwriadu datblygu cynllun cyfathrebu i gyfeirio mynediad at y wybodaeth ynghylch sut i ddod yn Gynghorydd ar gyfer y camau nesaf. Felly mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gyfleu'r neges honno i'r cyhoedd.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wrth yr Aelodau y byddant yn gorffen drafft cyntaf y strategaeth a fydd wedyn yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr.

<u>Gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:</u>

- Nododd y Cynghorydd Giles fod y gwaith sy'n cael ei wneud yn swnio'n gadarnhaol ac yn cydnabod ei fod yn dda iawn o ran y gwahanol ffyrdd o gael pobl eraill i ymgeisio, megis gwylio fideos ar-lein. Dywedodd yr Aelod ei bod yn edrych ymlaen at y 'dal i fyny' a grybwyllwyd.

  Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddant yn dod â'r strategaeth gychwynnol i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr. Dywedodd y swyddog y gallai ddod i mewn yn ddiweddarach ym mis Chwefror 2022 hefyd gan eu bod yn cael cyfle i ymgynghori ar y gyllideb, sef y cyfle gorau i gael cymaint o adborth â phosibl.

- Gofynnodd y Cynghorydd Watkins a allai Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ddosbarthu'r fideo i'r Pwyllgor.

Cadarnhaodd y Swyddog fod y ddolen i'r fideo wedi'i ymgorffori o fewn y cyflwyniad ac y bydd y Swyddog Arweiniol yn anfon hon at yr Aelodau.

7 **Disgrifiadau Rôl ar gyfer Aelodau (Diweddariad ar Lafar)**

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor wedi cyfeirio at rolau'r Aelod yn un o eitemau blaenorol yr agenda; a dywedodd wrth yr Aelodau y byddant yn ail-

rannu'r disgrifiadau rôl sydd wedi dod gan CLILC ar y fideos a ddarparwyd i ystyried yr hyn y maent yn mynd i'w roi ar waith ar gyfer etholiadau'r flwyddyn nesaf ym mis Mai 2022.

8 **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2022**

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio mai adroddiad drafft yw hwn, a gyhoeddir bob blwyddyn yn Hydref/Tachwedd yn gwahodd Cynghorwyr i wneud sylwadau cyn iddo gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr/Chwefror a chyn iddo ddod i rym fis Mai nesaf.

Atgoffwyd yr Aelodau nad ydynt fel arfer yn gwneud sylwadau ar faint y mae'r Panel Taliadau yn penderfynu yw'r taliad priodol i Gynghorwyr.

Maent yn ail-seilio'r lwfansau, yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu lwfans chwyddiant cymharol fach ond nawr maent yn cynghori nad yw'r cyflogau sylfaenol wedi cadw i fyny gyda chwyddiant dros y pum mlynedd diwethaf; felly maent yn ceisio ail-seilio'r holl lwfansau. Felly, bydd cyflogau Aelodau ac Arweinwyr yn cynyddu, bydd cyflogau uwch ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau a chyflogau'r Maer yn cynyddu gan swm cymesur.

Felly mae'n fater o glywed a oes gan Aelodau'r panel unrhyw sylwadau i'w gwneud i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar hyn o bryd.

<u>Gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:</u>

- Cydnabu'r Cynghorydd Giles ei bod yn anodd i'r Aelodau wneud sylwadau ar hyn mewn ffordd, o ystyried barn y cyhoedd am rôl gwleidyddion. Soniwyd nad yw Aelodau'n derbyn y cyfan y gallai fod ganddynt hawl iddo gan eu bod yn teimlo'n ymwybodol iawn o hynny. Mae'r asesiad annibynnol yn bwysig iawn a'r cymariaethau y mae'n eu gwneud o fewn y gymuned. Pan ddaw allan, mae'r ffordd y caiff ei chyflwyno i'r cyhoedd yn bwysig iawn ond pwysleisiodd mor bwysig ydyw mai barn annibynnol sy'n cyfrif.

- Holodd y Cynghorydd Watkins a allai Aelodau'r Pwyllgor wneud sylwadau unigol ar yr adroddiad.

  Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth na ddylent, gan ei fod yn cael ei anfon at y Cyngor i gael sylwadau. Gweithdrefn y Cyngor ar gyfer hyn fyddai i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd roi sylwadau ar y cyd ar yr adroddiad drafft. Eglurodd y Swyddog nad yw'n ymgynghoriad cyhoeddus; gan mai'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n ymgynghori â phob un o'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Gallant wneud sylwadau arno fel Cyngor fel sy'n arferol ac o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i lunio unrhyw sylwadau ar y cam hwn.

- Gofynnodd y Cynghorydd Watkins beth yw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud sylwadau ac a allai'r Pwyllgor wneud sylwadau.

  Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod yn rhaid i'r ymgynghoriad fod rywbryd ym mis Tachwedd felly cadarnhaodd mai hwn fyddai'r cyfarfod pwyllgor cyfunol olaf y gallant ddod â'r adroddiad iddo.

- Holodd y Cadeirydd a yw'r Pwyllgor yn credu eu bod yn gweithio wythnos dri diwrnod. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor eu bod yn gwneud llawer mwy na'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad.
  Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod rolau'r Cynghorydd yn sicr yn cynnwys gwaith y tu allan i oriau swyddfa arferol; soniwyd am enghraifft pan ffoniodd etholwr Gynghorydd am 3am. Soniodd yr Aelod y byddai'r rhai nad ydynt yn Gynghorwyr yn

synnu at y ffyrdd arloesol y maent yn eu defnyddio i gyflawni'r gwasanaeth y mae Cynghorwyr yn ei ddarparu yn eu rôl. Maent yn gwneud eu gorau i wasanaethu yn eu rôl.

Dilynodd y Cynghorydd Giles y sylw blaenorol a oedd yn gysylltiedig â'r drafodaeth o ddenu pobl i'r rôl. Nid yw nodi tri diwrnod yn adlewyrchu'r hyblygrwydd hwnnw sy'n ymddangos fel petai'n ddeniadol. Mae'n eithaf anodd gan fod llwyth gwaith rhai wythnosau'n brysur iawn ond wythnosau eraill yn llai prysur efallai. Nid yw unrhyw beth sy'n swnio fel cyflogaeth ar ddyddiau penodol yn adlewyrchu'r rôl gan fod hyblygrwydd a bod ar gael yn ganolog iddi.

Pwysleisiodd yr Aelod eu bod yn cydnabod nad yw Cynghorwyr yn wasanaeth brys ond soniodd fod angen bod yn wyliadwrus rhag disgrifio'r rôl fel un yr oedd gofyn ei chyflawni ar nifer benodol o ddyddiau.

- Gofynnodd y Cadeirydd a ddylai'r Cyngor greu sgôr net gynrychioliadol, er enghraifft ar sail yr amser a weithir ar gyfartaledd.

  Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth drwy ddweud nad ydynt yn credu bod y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn datgan bod pob Cynghorydd yn gweithio tri diwrnod yr wythnos; maent yn ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer yr hyn sy'n briodol ar gyfer lwfans.
  Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai mater i'r Aelodau yw gwneud sylwadau ar hynny, ynghylch a yw'r dadansoddiad o rôl ran amser yn cyfateb i gyflog rhan-amser. Y gwir yw eu bod wedi gorfod seilio'r asesiad o lwfansau ar rywbeth.
  Soniodd y Swyddog y gallent adolygu'r hyn y mae'r panel yn seilio lwfans rhesymol arno ac eglurodd fod y Panel annibynnol yn cydnabod bod bod yn Gynghorydd yn rôl amser llawn, ond dylai'r cyflog cyfatebol fod yn gyfwerth ag enillion rhan amser ar sail cyflog cyfartalog.

- Mynegodd y Cynghorydd Giles bryder ynghylch sut y gallai'r cyhoedd ystyried y cyflog fel un wedi'i seilio ar waith rhan amser. Awgrymodd yr Aelod eu bod yn edrych ar y geiriad wrth gyfathrebu â'r cyhoedd gan nad ydynt efallai'n sylweddoli ei fod yn fwy o waith, oherwydd ei fod yn cael ei ddisgrifio fel gwaith rhan amser.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod hon yn neges y gellid ei throsglwyddo i ddarpar Gynghorwyr fel y trafodwyd gyda'r eitem flaenorol. Mae'n fater o gyfleu gwybodaeth am yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gynghorydd, nid yn unig am eu bod yn cael eu talu £16,000 o dan yr argraff mai dim ond swydd dri diwrnod ydyw.
  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y dylai'r pwyslais fod ar gyfathrebu â phobl sy'n dod i mewn i'r rôl i helpu i ddeall cyfrifoldebau bod yn Gynghorydd yn hytrach na mynd yn ôl at y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gan awgrymu eu bod yn ail-seilio eu ffigurau ar rywbeth arall.

Cadarnhaodd y Pwyllgor eu bod yn hapus ag adroddiad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

9 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dydd Llun 13 Rhagfyr 10am

10 **Digwyddiad Byw**

Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, 11 Hydref 2021 - YouTube